**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad:** | 5 Rhagfyr 2019 |
| **Teitl:** | Cynigion arbedion yr Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac yr Adran Ymgynghoriaeth i ddygymod gyda'u cyfran o'r bwlch £2m posib yng nghyllideb 2020/21. |
| **Pwrpas:** | Craffu cynigion yr Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac yr Adran Ymgynghoriaeth i ddarganfod y swm o arbedion ac ystyried beth y byddai hynny, neu'r opsiynau amgen yn ei olygu. |
| **Swyddog cyswllt:** | Pennaeth Adran Amgylchedd – Dafydd Wyn Williams<br>Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Steffan Jones<br>Pennaeth Adran Ymgynghoriaeth – Huw Williams |
| **Aelod Cabinet:** | Adran Amgylchedd – Gareth Griffith<br>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Adran Ymgynghoriaeth – Catrin Wager |

---

## 1. Cyflwyniad / Cefndir

Dros y 12 mlynedd diwethaf, nid yw'r grant yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, sydd wedi arwain at sefyllfa ariannol lle mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud arbedion sylweddol.

Nid yw'n bosib rhoi sicrwydd ar hyn o bryd o sefyllfa ariannol 2020/21, gan ei bod hi'n gyn-amserol o ran cadarnhau y cytundeb tâl, setliad ariannol, lefel y grant ar gyfer 2020/21, ynghyd â nifer o ffactorau eraill. Fodd bynnag, ystyriwyd sut ydym am ddygymod gyda'r sefyllfa, a'r posibilrwydd na fyddai ein setliad yn ddigonol.

Cyflwynwyd adroddiad ar ddygymod gyda sefyllfa ariannol 2020/21 i'r Cabinet 23/7/19, oedd yn nodi fod angen i'r Cyngor gynllunio ar sail bwlch ariannol gyda ystod o rhwng £2m a £7m. Penderfynwyd i gynllunio ar y sail bod angen cwrdd â bwlch £2m (sef y sefyllfa mwyaf gobeithiol) drwy ofyn i adrannau ddarganfod eu cyfran nhw i gyfarch y swm hwnnw, sy'n cyfateb i'r diffyg adnoddau ar gyfer cwrdd â'r chwyddiant mae'r Cyngor yn debygol o'i wynebu.

Os bydd y bwlch sydd yn cael ei wynebu gan y Cyngor uwchlaw £2m, y bwriad yw i ddefnyddio balansau a/neu gynnydd uwch yn y Dreth Gyngor i roi amser i ni ddarganfod yr ateb yn barhaol.

## 2. Cyfran i'w ddarganfod gan yr Adrannau

Mae cyfrifwyr y Cyngor wedi dosrannu'r £2 filiwn rhwng yr adrannau, ar sail cyfran safonol o 0.78% o gyllidebau gros, yn dilyn addasiadau am grantiau, ayb. Hysbyswyd yr adrannau o'u cyfran nhw o'r swm i'w ddarganfod yng Ngorffennaf 2019, a'r swm perthnasol ar gyfer yr Adran Amgylchedd yw £96,560, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yw £281,190 ac Adran Ymgynghoriaeth yw £29,670.

Gall adrannau adnabod rhan o'r arbedion drwy beidio ychwanegu chwyddiant yn llawn neu yn rhannol ar gyfer rhai o'u cyllidebau gellid ei reoli a'u cwtogi, megis costau teithio, cyflenwadau swyddfa, ayb. Yn ychwanegol i hyn, caniateir adnabod ffrwd newydd o incwm fel ffynhonnell, ond ni chaniateir codi lefel ffioedd a phrisiau i ddarganfod yr arbedion.

## 3. Cynigion yr Adran

Gweler **Atodiad 1** sydd yn cynnwys cynigion yr adrannau i gwrdd â'r swm gofynnol, ynghyd â goblygiadau defnyddio y ffynhonnell fel arbedion ar yr Adran.

## 4. Argymhellion

Gofynnir i'r Aelodau:

- Gymeradwyo cynigion yr adrannau i gwrdd â'u cyfran o arbedion perthnasol.

---

## Atodiadau

Atodiad 1 – Rhestr cynigion arbedion yr Adran Amgylchedd
– Rhestr cynigion arbedion yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
– Rhestr cynigion arbedion yr Adran Ymgynghoriaeth

---

**ATODIAD 1**

## Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Amgylchedd

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|
| £9,580 | Gweithiau - rhewi chwyddiant. | Ni ragwelir effaith ar drigolion Gwynedd wrth rewi chwyddiant am un flwyddyn yn unig gan fod y swm eithaf bychain. |
| £4,000 | Rheolaeth Adeiladu - ffioedd darparu cyngor ymlaen llaw. | Nid yw'r ffioedd yma'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd, ond mae trefn debyg mewn bodolaeth yn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r adborth gan y sawl sy'n derbyn y sylwadau yn gadarnhaol dros ben, gyda thrigolion yn teimlo eu bod yn cael cyngor llawer mwy defnyddiol a'i fod yn werth am arian. |
| £5,000 | Lleihau cyllideb Hyfforddiant. | Ni ragwelir effaith sylweddol yma ar drigolion Gwynedd. Fe fydd angen i'r Adran fod yn fwy penodol ar ba hyfforddiant sydd wirioneddol ei angen i lenwi bylchau mewn gwybodaeth ac i fod yn cwrdd â gofynion newydd ynghyd a datblygu staff. |
| £15,000 | Gwaith stryd - torri hanner swydd. | All fod dipyn o effaith o golli hanner swydd, ond rhagwelir bod posib lleihau'r effaith yn sylweddol drwy well ddefnydd o dechnoleg a chydweithio agosach gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. |

**ATODIAD 1**

| | | |
|---|---|---|
| £2,000 | Deunyddiau swyddfa. | Mae’r holl fesurau arbedion yma yn ymwneud a phrynu’n rhatach, prynu llai, neu beidio â phrynu o gwbl drwy wneud gwell defnydd o dechnoleg (e.e. defnyddio llai o bapur, argraffu llai). Mae’r adran mewn gwirionedd yn gor-gyflawni o dan y pennawd ‘Rheolaeth Categori’ yn eu rhestr arbedion Adrannol. Ni ragwelir effaith ar drigolion Gwynedd. |
| £8,000 | Argraffu/llungopïo. | |
| £5,000 | Gwasanaeth proffesiynol/technegol. | |
| £7,420 | Tanysgrifiadau. | |
| £25,000 | Offer a chelfi. | |
| £15,560 | Arbedion trwy brynu’n rhatach (meddalwedd). | |
| **£96,560** | **Cyfanswm** | |

**ATODIAD 1**

## Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|
| £15,000 | Lleihad yn nefnydd trydan Twnnel Caernarfon | Dim effaith ar drigolion - Lleihad yn y costau yn dilyn newid i'r system reoli a goleuo yn cynnwys cyflwyno lampau LED. |
| £3,000 | Nwy yr Amlosgfa (defnydd) | Dim effaith ar drigolion - Defnydd o'r ynni wedi lleihau yn dilyn gwell rheolaeth/systemau newydd. |
| £80,000 | Cost ymdrin â gwastraff masnachol | Dim effaith ar drigolion - Erbyn hyn rydym yn trin ein gwastraff gweddilliol yn safle Parc Adfer sydd yn safle llosgi ar y cyd gydag Awdurdodau'r Gogledd. Mae strwythur y ffi wedi sicrhau lleihad yn ein costau. |
| £46,250 | Chwyddiant | Dim effaith ar drigolion - Gweithio o fewn y gyllideb gyfredol 2019/20 a gweithio'n agos gyda'r Tîm Categori Priffyrdd a Bwrdesitrefol. |
| £20,000 | Chwyddiant - deunyddiau cyffredinol | Dim effaith ar drigolion - Addasu Cyllidebau - gweithio o fewn cyllidebau cyfredol 2019/20, gweithio mwy effeithlon ac yn agosach gyda'r Tîm Categori Priffyrdd a Bwrdeistrefol. |
| £7,000 | Ar-ddyletswydd Bwrdeistrefol | Dim effaith ar drigolion - Sefydlu un drefn ar-ddyletswydd ar draws yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. |
| £12,940 | Gwariant amrywiol fflyd | Dim effaith ar drigolion - Mae gwaith diweddar y Tîm Categori wedi adnabod cyfleoedd o weithio yn fwy effeithlon. |

| | | |
|---|---|---|
| £50,000 | Ail-strwythuro'r Adran | Dim effaith ar drigolion - Cyflwyno strwythur newydd o fewn yr Adran er sicrhau gwell effeithlonrwydd/cydweithio ar draws y gwasanaethau. |
| £35,000 | Cynllun Cau Cilgwyn | Dim effaith ar drigolion - Mae Cynllun Cau yn ei le ar gyfer safle Cilgwyn sydd wedi bod a gofynion eithaf caeth mewn perthynas â gwaith monitro. Mae'r safle bellach wedi cau ers peth amser, ac yn unol mae'r Adran wedi agor trafodaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar leihad gofynion y Cynllun Cau sydd wedi ei gytuno mewn egwyddor. Wrth weld y cynllun newydd yn ei le bydd gofyn am waith monitro misol yn newid i un pob chwarter sydd am leihau ar yr holl waith profi. |
| £12,000 | Coed - dim didoli | Dim effaith ar drigolion - Yn flaenorol roedd rhaid didoli rhai mathau o goed er sicrhau ein bod yn gallu cyfrif y gwastraff tuag at ffigyrau ailgylchu. Erbyn hyn, gan weld Parc Adfer yn weithredol ac ein bod yn gallu cyfrif (bottom ash) nid yw'n ofynnol didoli'r coed. |
| **£281,190** | **Cyfanswm** | |

**ATODIAD 1**

## Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Ymgynghoriaeth

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|
| £7,260 | Trwy wneud addasiadau i wariant a chyllidebau YGC mae effaith net o leihad yn y gwariant. Mae hyn yn rhannol wedi ei gyflawni trwy dorri'n ôl ar aelodaeth YGC o sefydliadau fel NSAN (National Skills Academy Nuclear) a hefyd dorri ar wariant ar gylchgronau a thebyg, gan fod y rhain bellach ar gael trwy ffurf electronig neu ar y we. | Dim |
| £22,410 | Cynyddu adnoddau o fewn Unedau YGC sy'n galluogi'r Adran gynyddu incwm. Mae'r Ffurflenni Newid Strwythur diweddar wedi cynyddu'r capasiti o fewn meysydd Ymgynghoriaeth Costau ac Ecoleg. | Dim |
| **£29,670** | **Cyfanswm** | |